

# 11 Tai a thiroedd, gyda nodiadau ar y trigolion

Fel y dywedwyd eisoes, yn 1836 pasiwyd y *Tithe Commutation Act*, ac yn ôl hon yr oedd y degwm i fod yn swm penodol, o'r un faint bob blwyddyn, a hwnnw i'w benderfynu yn ôl cyfartaledd pris yr ŷd am y saith mlynedd yn flaenorol i 1836. Aneurin Owen, mab William Owen Pughe, oedd Dirprwy Cynorthwyol y Degwm i gario allan y Ddeddf hon. I'r amcan hwn gwnaed *survey* a *map* o blwyf Niwbwrch yn 1838. Cynnwys y *survey* restr o'r tiroedd - pob un wedi ei rifo - gydag enw'r tí ac, weithiau, enw'r perchennog. Canlyniad yr ymchwiliad hwn yw y gellir gweled maint a lleoliad bob tyddyn neu ffarm yn y plwyf yr *adeg honno*.

Yn dilyn ceir rhestr o'r tai a'r tiroedd hyn; cyfeiria y rhif (mewn cromfachau ar ôl enw'r tí) at *map* y degwm. Wedyn rhoddir y flwyddyn ym mha un y ceir y cyfeiriad *cyntaf* ato yng nghofrestrau'r plwyf. Gresyn fod llawer o hen enwau lleoedd wedi diflannu erbyn hyn - oherwydd yn eu lle rhoddwyd enwau Saesneg neu 'enwau gwneud'. Gellir cymryd yn ganiataol mai tô gwellt oedd i fwyafrif y tai yn y plwyf a adeiladwyd cyn 1820.

ABER-MENAI; 1734.

Mor gynnar â Mai 17, 1729, penodwyd *Tide-surveyor* am ,30 yn flynyddol a phedwar cychwr ychwanegol am ,15 y flwyddyn yr un, i'w gosod ar Drwyn Aber-menai, ac i gael cwch bychan a dau o ddynion i fyrddio llongau a angorai yn agos i Gaernarfon ac felly warchod rhag smyglio.<sup>1</sup>

Yn yr hen amser cludid íd o Aberffraw i Gaernarfon as hyd "ffordd Aber-menai" (1) o Ben-lôn, (2) o'r Erw-wen ar draws y tywyn.

Ar Rhagfyr 5, 1785, dydd Ffair y Gaeaf, suddodd ysgraff y borth a boddod yr holl deithwyr - 54 mewn nifer - oddieithr un o'r enw Hugh Williams, Ty'n llwyden ger Aberffraw. Dyma'r hanes fel y'i cafwyd ganddo ef ei hun:

"Yn gyffredin byddai ysgraff Aber-menai yn gadael Caernarfon as ddychweliad y llanw, ond gan fod Rhagfyr 5ed yn ddydd ffair ac anhawster i gael y teithwyr at ei gilydd, ni adawodd y cwch Gaernarfon hyd bron bedwar o'r gloch, er bod y trai ar ei isaf ymhen yr awr wedyn; chwythai awel gref o'r S.E. yn union ar flaen ochr aswy'r cwch. Rhaid oedd cadw'r cwch yn o agos i ochr Caernarfon i'w gysgodi rhag y gwynt hwn, ag oedd yn chwythu yn union i gyfeiriad dau draethell oeddynt ychydig yn fwy na hanner ffordd o lan Caernarfon i Fôn.

Er pob ymdrech o eiddo'r ysgraffwyr gyda'u rhwyfau - ni feddent hwyliau - fe aeth y cwch ar y banc, a chwythai'r gwynt luwch y môr drosom. Neidiodd rhai o'r teithwyr cryfaf o'r cwch /120/a cheisient ei wthio oddi ar y banc; ond bob tro y symudent y cwch o'r fan, fe'i gyrrwyd yn ôl gan y gwynt. Erbyn hyn gan fod y cwch hanner llawn o ddwr, a môr mawr yn torri drosom, tybiwyd mai'r peth gorau oedd gadael y cwch ac aros ar y banc, gan obeithio cyn i'r llanw godi wedyn y caem ryw gynhorthwy o Gaernarfon. Y foment y gadawsom y cwch fe'i llanwyd â dër a suddodd. Cyn ei adael llwyddais i gael yr hwyllbren ar ba un, os rhaid, y penderfynais geisio fy niangfa.

Yr oeddem oll, yn ddynion, merched a phlant, ac yn 55 mewn rhif, mewn sefyllfa ofnadwy, yn ddigysgod ar sugndraeth ar noson dywyll oer a dim ond marwolaeth buan yn ein disgwyl oni cheid cymorth o Gaernarfon. Gyda'n gilydd gwaeddassom yn fynych am ymwared ac fe'n clywwyd. Canwyd yr *alarm-bell* (ar lan Caernarfon) ac, er garwed yr ystorm, cychwynnodd amryw o gychod i'n cynhorthwy; ond pan welsent ein sefyllfa ni fentraï yr un agosau atom, rhag ofn i dynged gyffelyb eu goddiweddyd hwythau. Wrth ganfod fod ein perygl yn cynyddu bob munud a dim gobaiith am gynhorthwy, penderfynais beidio ag aros dim hwy ar y banc ond ymddiried fy hun i drugaredd y môr. A minnau yn nofiwr lled dda, teimplais yn sicr y gallwn, gyda'r hwyllbren, gyrraedd glan Môn. Rhwymais yr hwyllbren ag un rhwyf ynghyd gyda dwy raff gwellt. Tynnais fy esgidiau a'm côb uchaf, gwthiais y cludair (*raft*) ychydig oddi ar y banc a gosodais fy hun arni. Ar yr un foment fe ddymchwelodd gan fy nhaflu innau oddi tani. Fel hyn, ag un fraich drwy'r rhaff, fe'm cariwyd yn glir oddi ar y banc.

Wedi bod yn y dër am tuag awr canfûm olau gryn bellter draw. Credwn yn sicr y deuai hwn o dî porthfa Tal-y-foel a gwnês bob ymdrech i gael y lan drwy wthio y gludair i'w gyfeiriad, ar yr un pryd yn gwaeddi yn uchel am gynhorthwy. Ond, er fy mawr siomiant fe'm cludwyd heibio'r goleu a chefais fy hun yn cael fy ngyrru yn gyflym o flaen y gwynt a'r llanw, a gobaiith ymwared yn diflannu. Ar ôl cael fy nhaflu o gwmpas gan y môr am oddeutu dwy awr ar noson oer a gwyntog, a'm cynnal yn unig gan hwyllbren â rhwyf ysgraff fechan, llwyddais i gael y lan. Ymlusgais i gyfeiriad y man yr oeddwn wedi gweled y goleu, ond pallodd fy nerth a bu raid i'm orwedd yng nghysgod gwrych. Deffrodd y gwynt a'r glaw fi'n fuan, ac wedi llawer ymdrech boenus iawn o'r diwedd cyrhaeddais borthdî Tal-y-foel, lle y'm rhoddwyd mewn gwely cynnes ac y deuthum ataf fy bun yn raddol.

Fore drannoeth gwelid olygfa drist ar hyd glan y môr. Yr oedd yr cwbl o'r 54 wedi boddi; y fi yn unig achubwyd ac ni welwyd y cwch byth wedyn. Canfuwyd fy esgidiau a'm côb o dan y banciau tywod a newidient eu lle yn barhaus gyda'r llanw, ac yno hefyd y claddwyd cyrff y mwyafrif o griw yr ysgraff.

HUGH WILLIAMS."

<sup>1</sup> Ceir cyfeiriad at un David Owen, *tide-waiter* yn Niwbwrch, oedd yn fyw yn 1766; enw ei wraig oedd Grace a bu iddynt dri o blant : David (ganwyd 1724), John (g. 1726), a Catherine (g. 1737) - *Caernarvonshire & Anglesey, Pedigrees*, by J. E. Griffith, p. 1.

Ymhlith y rhai a foddwyd oedd deunaw o Niwbwrch.<sup>2</sup> dyma enwau y cyfryw, gyda dyddiad eu claddedigaeth yn Niwbwrch /121/(mewn cromfachau). Mae'n amlwg na ddeuwyd o hyd i gyfrif amryw ohonynt:

William Jones, Gwninger (Rhag. 9) a Mary ei ferch; Griffith Griffith, Neuadd-wen (Rhag. 9); Robert Thomas, porthwas; Thomas Williams, porthwas, Pendref (Rhag. 8); Parch. Lewis Pugh, curad (Rhag. 17) ac Ann ei wraig (Maw. 19, 1786); Mary Evans, morwyn Aber-menai; Elizabeth Thomas, gwraig William Dafydd, Ty'n-rallt (Rhag. 18); Jane Owen, gwraig Thomas Prichard (Maw. 31, 1786); Jane Abram, gwraig William Thomas, Ty-lawr (Chwef. 4, 1786); Richard Isaac, Sign-fawr; Margaret Hughes, gwedd, Rhouse (Rhag. 17); Richard (Maw. 8, 1786) a Mary, mab a merch William Thomas, Plas; Mary, gwraig Owen Shon Dafydd; John, mab Thomas Shon Morgan (Chwef. 4, 1786); a Mary Williams, morwyn Pendref.

Ar ôl y trychineb hwn tybiwyd mai'r cam doethaf oedd symud y borthfa o Aber-menai i Dal-y-foel; ond yma wedyn, ar Ffair y Gaeaf, digwyddodd damwain gyffelyb a boddwyd y cwbl oddieithr un, a Hugh Williams oedd enw hwnnw hefyd. Yn dilyn hyn, yn 1820, suddodd y cwch a chollwyd bywyd pob un oedd ynddo ond un, sef Hugh Williams eto, Bodowyr-isaf, Llanidan.

Parodd hyn i Gwilym Berw, rheithor Abergynolwyn, weu yr englyn a ganlyn:

“I oror dwr, â'i Air, Duw - a yrai  
Wirion, fel annuw;  
Mawr ddialedd y mor ddiluw,  
Ni feddai hawl i foddi Huw.”

Sôn y sydd mai Sion William a Beti Owen oedd gwas a morwyn i'r porthwas Robert Williams fu farw yn 1820; bu iddynt ferch a mab (William), daeth y ferch yn nain i'r diweddar Griffith Jones, Maes-y-ceirch-dir; ond symudodd y mab, y capten môr cyntaf o Niwbwrch, i Gaergybi. Dywed arall mai Sion William oedd y porthwas olaf, a phan symudodd ef a'i deulu i fyw i Niwbwrch, daeth â hen gloch y borthfa gydag ef, gan ei defnyddio i gyhoeddi gosteg yn nhreflan Niwbwrch oherwydd mai ef oedd criwr y lle.<sup>3</sup>

Perchennog Aber-menai yn 1838 oedd Syr R. Williams Bulkeley, Bar. Dywedir gan y tenant presennol fod y lle bum troedfedd yn is nag ydoedd ddeugain mlynedd yn ôl; a'r pryd hynny gellid dal hanner can cwpl o gwningod yno ar un noson, ond erbyn hyn camp cael 30 cwpl mewn tymor cyfan. O fewn cof rhai sy'n fyw, byddai cychod ar lanw yn dod i'r gesail. Rhwng y cwt powdwr presennol a'r hen dŷ gwelir y ffynnon gyda'i dŷer croyw, er bydd y llanw pan ddaw i mewn yn cyrraedd o fewn

2 Ceir enwau y 35 arall yn *Cymru* IV (1893), tt. 112-114.

3 *Cymru* III. 248.

llathen iddi. Mesura rhyw lathen ar draws ac mae o leiaf bum llath o ddyfnder, ond erbyn heddiw mae yn adfeilion. Yn agos i'r tí saif Ponc Ddeol, un o'r ponciau mwyaf yma, oddeutu pum i chwe llath o uchder. Ceir /122/mwy o bridd caled ynddi nag o dywod, a hi yw'r unig boncen yma sydd felly. Mae'r cwbl o "Fraich" Aber-menai ar sarn o gerrig Llanaelhaearn.

ALLOTMENT: 156: Tlodion plwyf Niwbwrch.  
63: John Williams a William Hughes.  
190, 190a: Samuel Owen.  
157: Humphrey Owen.  
188: Thomas Prichard a John Jones.  
193: Jane Roberts.  
168: William Thomas.

ALLT-GWTA: gweler *Gallt-gwta*.

ALLT-HIR: gweler *Gallt-hir*.

AMERICA: (180).

BARON-HILL: tí t^ gwellt oedd yno yn flaenorol, ar ben llain sy'n cydredeg â llain y Pant. Mae yr hen d a safai ychydig o'r ffordd wedi ei dynnu i lawr a thri th newydd wedi eu hadeiladu yn nes i'r ffordd.

BELAN: 1799.

BERACH: 1805.

BOD-IORWERTH(108,143: Elizabeth Alicia Turnbull): adeiladwyd y t presennol oddeutu 1844 gan Hugh Owen Edward, Glas-goed, ond bu farw cyn myned i fyw ynddo. Aeth yr eiddo i'w chwaer Catherine, merch Hugh a Mary Owen, Glas-goed. Priododd hi â Capten John Jones, mab John Jones, Tyddyn. Yr oedd Hugh Owen, Glas-goed, yn frawd i Owen Owens, Rhouse.

BRON-DANW: gweler *Bryniau-danw*.

BRON-DERWYDD.Rhwng Sign-hare a White Lion yr oedd llain o dir. Ar ei phen gyferbyn â Rhouse safai tri o dai bychain gyda ffynnon fechan rhwng eu palmant a'r heol. Yn un ohonynt trigai Beti Gwalchmai, merch Gwalchmai Williams y cigydd; yn y t canol gwraig John Thomas y gwehydd; ac Owen Williams, mab William Sion Dafydd, Tyddyn-plwm, yn y t agosaf i Sign-hare. Cadwai Beti Huws (gwraig Owen Williams) d popty yma. Prynodd Samuel Roberts (y Plâs) y llain; tynnodd i lawr y tri th , ac adeiladodd d a siop helaeth yma.

BRON-Y-GADER (164):perchennog y tí hwn yn 1851 oedd David Pugh: cymharer *Ty-Pugh*.

BRON-YR-EFAILgweler *Efail-newydd*.

BRYN-FELIN. Yr oedd melin wynt lle y saif y tŷ yn awr. Ymddengys fod y felin yn wâg yn 1856-7, oherwydd maddeuwyd y trethi ar y felin am y flwyddyn honno. Samuel Jones y tenant a dynnodd y felin i lawr ac a adeiladodd y tŷ.

BRYN-HYFRYD. Adeiladwyd y tŷ gan Henry Williams o Lanberis, ef yn fab-yng-nghyfraith i William Thomas, gynt o Cae-coch.

BRYN-HYWYDD.(13, 229, 205).

BRYNIAU (24); 1732. Saif ar gopa craig ddifyr i'r gogledd o'r pentref. Mae'n bosibl iawn mai'r llecyn hwn oedd yr "eithin /123/fynydd" y soniai Dafydd ap Gwilym amdano, oherwydd yr oedd Morfydd yn ferch i Fadog Lawgam, ac y mae Bryn-madog yn agos i'r Bryniau. Dywedir mai Huwsiaid y Brwynog y gelwid y perchenogion ryw ganrif yn ôl, a bod rhan o hen blâs y Bryniau yn cael ei ddefnyddio fel gweithdy.

BRYNIAU-DANW,  
neu

BRON-DANW. Cwninger fechan ydoedd ac yn gysylltiedig i'r tyddyn Gwninger; mae adfeilion neu sylfeini tai i'w gweled yno o hyd, rhwng y Gwninger a glan y môr, sef Rô-bach.

BRYN-MADOG (26, 19, 28; John Jones): 1745.

BRYN-SINC (245, 250; Ardalydd Môn): 1785.

BRYN-YR-  
HENDAI: ychydig yn uwch i fyny na Tŷ yr Hendai ac yn agos i Bryniau-danw.

BRYN-YSGAWAN.  
CADAIR-  
GYTHRAUL, rhwng y Pandy ac Ynys Llanddwyn.  
CADER-LANTIN, gweler *Clwt-melyn*.  
CAEAU-  
BRYCHION (272; Arglwydd Newborough): 1833.  
CAEAU-  
GWYNION: "Cefn-mawr William Jones" y'i gelwir yn awr. Yr oedd hwn yn rhan o hen etifeddiaeth y Bryniau.  
CAEAU-LLIDIART (107, 227, 249; capel Tal-llyn). Maent yn agos i Frynsinc ac yn Rhan o Dir-Bodfel erbyn hyn.  
CAE-COCH  
neu  
ERW-GOCH (290, 298; Richard Davies).  
CAE-COCH-  
BACH (261): bron gyferbyn a Llain-Nest.  
CAE-COCH  
TERRACE. Adeiladwyd y pedwar tŷ hyn gan William Owen, Gallt-y-rhedyn;

Safent yn Heol Malltraeth yn agos i Rhouse.  
1827.  
CAE-CRWN:  
CAE-DRYLL: rhwng Ty'n-coed a Tir-Bodfel; un arall yn perthyn i Gallt-y-rhedyn, rhwng Tir-mawr a Tan-y-graig.  
CAE-FELIN-  
WYNT Rhwng Bryn-felin a'r Dywades.  
CAE-FFYNNON-  
FRAN: saif y tu ôl i Dŷ'n goeden a Chapel y Methodistiaid Calфинаidd.  
CAE-HELYG: lle y saif Llwyn-helyg yn awr, gyferbyn â Tal-y-braich.  
CAE-LLEWELYN(103, 106, 119, 205): gyferbyn a'r Llys i'r de.  
CAE-LLWYN-  
DERW: ym Maes-y-ceirch-dir.  
CAE-MAIN: yn nhir Pendref.  
CAE-MERDDYN?  
neu  
CAE-MERDDYN-  
POETH: yn nhir y Goeten.  
CAE-NEWYDD.  
CAE-PERSON: perthynai hwn i'r plwyf, ond gwerthwyd ef yr un adeg â'r Rhenc (Soar Terrace).  
CAE-PREN.  
CAE-YR-ACRES (?aeres) (270;Parch. Richard Hughes, William Morris Robinson, ynghyd â'r Tyddyn). Nid oes adeiladau arno; ffermir ef gan Ër y Tyddyn.  
CAE'R DOPPAN: 1816; lle saif Tal-y-braich Terrace a'r Eglwys-bach yn awr.  
CAE'R GLYNNE (42). Adeiladwyd y tŷ presennol ar brydles gan Richard Jones tua 1850./124/  
CAE'R-TRUAN (136):1804. Gwelir adfeilion y tu ôl i'r tŷ presennol.  
CAE'R-  
WEIRGLAWDD: 1805; gyferbyn â giat Tŷ-lawr.  
CAE'R-YCHAIN (135; William Hughes): 1755.  
CAPEL  
neu  
HEN-GAPEL: 1793.  
CAPEL a thir (110; Ymddiriedolwyr y capel).  
CARREG-  
CIBWRN 1745: gelwid ef yn *Cipwrn* yn 1796.Hyd yn ddiweddar codid cerrig ffordd fawr yn chwarel Carreg-cibwrn.  
CARREG-SCRWT:1790.  
CARREG-Y-GATH.  
CARREG-YR-  
EGLWYS (116; John a Hugh Williams); 1804; neu

LLAM-CARREG-YR-EGLWYS, wrth ymyl Capel Soar.  
 CARREG-YR-EITHIN : 1732.  
 CARREG-YR-EITHIN-NEWYDD (72, 61): 1771; Dywedir fod hwn yn rhan o etifeddiaeth fechan Tŷ-lawr amser a fu.

CARROG HOUSE.  
 CEFN-BYCHAN (35, 34; Owen Roberts, Ysw.): 1743.  
 CEFN-MAWR-(UCHAF) (268, 267) : 1722.  
 CEFN-MAWR-ISAF (269): 1744. Dywedir y perthynai hwn gynt i'r Pyrsiaid, Tai-hirion, Llangaffo.

CERRIG-CANHWYLLAU:  
 CERRIG-LADIES: yn fwy cywir Cerrig-Gladys - enw ar ferch a ddaliai y tir yma yn y Gwninger-fawr yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

CERRIG-MARCHOG: 1821. Safai yn yr ail gae presennol ar yr aswy wrth fyned o'r Dywades am Fryn-sinc.

CERRIG-MAWR (265, 25: John Robert Purnell, Ysw.): 1743.  
 CERRIGY-GWYDD(296) ; 1809.  
 CLOGWYN (41; Griffith Owen): 1746.  
 CLOGWYN-BACH (43; Robert Williams). Safai ar bonc eithin rhwng Rhedyn-coch a Clogwyn-llwyd.

CLOGWYN-LLWYD (40; Griffith Jones). Adnabyddir ef yn awr gan yr ardalwyr fel "Clogwyn Mary Owen."

CLWT-MELYN (179); adeiladwyd tŷ yma a elwir Cader-lantin.  
 CLWT-YMRYSON; darn o'r tywyn yn agos i'r Gwninger.  
 CLYNNOG; 1796.  
 CLYNNOG rhan (306, 198, 200; Thomas Pears Williams, Ysw).  
 CLYNNOG-BACH: 1763; wrth dalcen ffarm Clynnog.  
 COED-ANNA, yn Heol yr eglwys.  
 COLLEGE 1814.  
 CORYN-DOG: 1791; Picton House yw'r enw presennol.  
 COURT : 1804.

CROCHAN-LLANDDWYN: 1791.  
 CROCHAN-TY'N-COED.  
 CROFT (246; Henry Lewis): gwel 'Rofft.  
 CWT-GWLYB.  
 DYWADES (209, 55, 58, 49, 231) ; *Dowades* 1794; *Dwades* 1798.  
 "EAGLES": 1813 ; tafarn.  
 EFAIL-NEWYDD (313): *Bron-yr-efail* y'i gelwir yn awr; bu yno dafarn a gefail./125/  
 EFAIL-UCHAF, neu *Ysgubor-ddegwm*; yr oedd dau neu dri o dai yma.  
 ERW-GOCH, gwel CAE-COCH.  
 ERW-WEN (149, 152; J. Jones, Owen Jones a Owen Hughes): 1792.  
 FACTORY (14) ; 1828.  
 "FEATHERS, YE": 1771; tafarn.  
 FELIN-WYNT (46; Richard Williams); gwel Bryn-felin.  
 FRON-DEG: 1748.  
 FRON-DEG-ISAF (311).  
 FRON-DEG-UCHAF(309):1810. Mae Fron-deg-isaf a Fron-deg-uchaf yn awr ym mhlwyf Llangaffo. Perthynent gynt i Oweniaid Bodowen. Yma yr oedd hen blas ardderchog yn yr unfed ganrif ar bymtheg a elwid yn ddiweddarach Fron-deg-isaf a'r ffarmiard yn Fron-deg-uchaf. Ar ystâd Bodowen yn Niwbwrch yr oedd dau blâs hynafol, sef Fron-deg a Plâs-newydd.Dywedir i Owen Meurig o Fodowen adeiladu Frondeg i'w fab Lewis Owen yn nheyrnasiad Elizabeth, a'r Plâs-newydd i Gibbon Owen.<sup>4</sup> Ar ôl troi tywyn Llanddwyn yn Gwningerfawr, delid hi gan denant a fyddai'n byw yn Plâs-newydd ac yn ffermio Bryn-howydd. Samuel Jones (mab Twm Shon Dafydd) oedd y tenant diwethaf cyn gwerthu'r etifeddiaeth y tro olaf; ar ei ôl ef William Jones, Warehouse. Gwerthwyd Bryn-howydd i Mr. Jones, Tre-anna, a Phlas-newydd i rywun arall; felly adeiladodd Mr. Jones dŷ newydd ar di r Bryn-howydd.

FFYNNON-DAFADEN, yn Ynys Llanddwyn. Tybid fod iddi rinweddau meddyginiaethol Yngl n â dafadennau. Pigid y ddafaden a phinau; gwithid y rhain i gorcyn a'i daflu i'r ffynnon; yna golchid y dwylaw yn nêr y ffynnon a diflannai'r ddafaden !

FFYNNON-

<sup>4</sup> Gweler *Pedigrees*, gan J. E. Griffith, tud. 58.

GWEIRGLODDIAU yn y cae gyferbyn â Thal-y-braich.  
 FFYNNON-ROFFT, yn Heol yr eglwys.  
 FFYNNON-SAIS. Drylliwyd llong Seisnig yn agos i'r fan hon; a'r dwfr croyw cyntaf a yfodd y criw, oedd y dwfr a geid ymysg y cerrig yno – felly y cafodd yr enw.  
 FFYNNON-WEN: 1744; yn y cae o flaen drws Tyddyn-waun ac ar y llwybr sy'n arwain oddi yno i Gefn-bychan. Gweler hefyd Tyddyn-y-fawd.  
 GALLT-GWTA (75; Tlodion plwyfi Niwbwrch a Threfdraeth): 1814.  
 GALLT-HIR, o'r eglwys i gyfeiriad Malltraeth.  
 GALLT-Y-RHEDYN (127; Owen Williams): 1775.  
 GARDD-BACH a enwir y ddau le hyn mewn gweithred DD 988 yn Llyfrgell Genedlaethol GARDD-LAS Cymru yn Aberystwyth (206)  
 GERDDI  
 GERDDI-MARCHOG: 1765. Tŷ oedd hwn yn yr ail gae ar yr aswy wrth fyned o'r Dywades ar hyd Lôn-twnti (Lôn-gerddi-marchog oedd yr hen enw). Ceid yno rês o gerrig meirch. Dywedir i hen /126/wraig o'r enw "Nani fain" fod yn byw yno, a bod tŷ gwelld ei thŷ wedi ei losgi gan fechgyn.  
 GLAN-RHOS (282): 1824.  
 GLAN-TRAETH (16, 33, 237; Richard Hughes): 1759.  
 GLAN-Y-GORS: 1828.  
 GLAN-YR-AFON 1834.  
 GLAS-GOED: 1797; cymharer Tir Glasgoed. Un o dyddynnau hen ffasiwn Niwbwrch gynt ydoedd hwn, gyda'r tŷ a'r beudai yn y dref, a'r tir oddi allan.  
 GLYN-TEG (22; Morris Jones): 1768. "Glynteg, a elwir yn awr yn Havodtu 26 Mehefin 1826,"<sup>5</sup> gweler hefyd Hafod-tŷ. Dywedir ei fod un adeg yn dri thyddyn llai - Glyn-teg (y presennol); Hafod-ty (ar ben y bryn yng nghyfeiriad Glan-morfa, yn agos i'r ffordd yn y cae cyntaf yng nghyfeiriad Cefn-mawr-isaf); Merddyn Gwyn (yn agos i'r ffynnon sydd ar derfyn Glyn-teg wrth glawdd Cefn-mawr-isaf).  
 GOETEN (117a, 132): 1744.  
 GORFFWYSFA: 1804; ail-adeilad yw'r tŷ presennol.  
 GORSEDD (80).  
 GRAEAN-FRYN. Adeiladwyd hwn gan Catherine ferch Robert Hughes, Tyddyn-pwrpas.  
 "GREYHOUND INN": 44; tafarn.

<sup>5</sup> Porth-yr-aur MS. 11053.

GWELY-ESYTH.  
 GWNINGER-FACH:(155, 11): 1744.  
 GWNINGER-FAWR: (2). Yr oedd hon yn 897 acer mewn maint. Trwy ddifrod y tywod, gwnaed y lle yn gwninger gan y perchenogion, sef Owenaïd Bodorgan. Pan werthwyd yr etifeddiaeth gan R. R. Hughes, Kinmel, tua 1872, prynwyd hi gan Hugh Prichard, Dinam. yr hen enw am Glyn-teg.  
 HAFOD-TY; HAFOD-TY, neu *Hafod-tŷ-Fathew*, neu *Hafod-tŷ-uchaf* (126, 122): 1744. gweler Rheinws.  
 HEINWS: 1745.  
 HEN-BLAS: 1797; yn y tywyn o dan y Graig-fawr yn agos i'r Gwninger.  
 HEN-DAI-PIG-LWYD: (5).  
 HENDRE-BACH (114) : 1777.  
 HENDRE-FAWR (155, 73, 70 Hugh Williams): 1745. Ar wyneb y tŷ ceid carreg a llythrennau a dyddiad wedi eu torri arni: WRT 1769<sup>6</sup> (252, 289, 295, 301, 303, 305, 142; Parchn. Hugh Wynne Jones ac Evan Lloyd): 1828.  
 HEN-D sef Hen-bias, y "capel" cyntaf yn yr ardal./127/ (228; Arglwydd Boston): 1762; gweler hefyd Ysgubor House. Yn Yr House hyd ddeugain mlynedd yn ôl y cedwid *regalia* Corfforaeth Niwbwrch.  
 HOYWAL, gyferbyn a Nyth-y-gôg.  
 LÔN-DYWOD (82): 1787. Yn 1789 gelwid hi Lôn-dywyll. Bu dau dŷ o flaen Bryn-menai (neu ar y llain lle safai Bryn-menai) amser a fu.  
 LONG-SIPPING. (172). h.y., Lôn "Ship Inn" - y tŷ (a'r dafarn) olaf ar y ffordd o Bentref Niwbwrch i Abermenai.  
 LLAIN neu  
 QUILLET: (72a).  
 LLAIN-CARREG-YR-EGLWYS : 1825.  
 LLAIN-CLEDDYF, neu LLAIN-Y-CLEDDAU (50; Arglwydd Boston): 1835. Saif y llain hon rhwng Pen-y-gamfa a Boston Terrace, gyferbyn a Phlas-uchaf. Adeiladodd John Hughes gwehydd ddau dŷ bychan yma. Cymerodd Capten Griffiths brydles arni ac adeiladodd y tai presennol.  
 LLAIN-CLORION, ger Tyddyn-bach.  
 LLAIN-CORS-

<sup>6</sup> Porth-yr-aur MS. 11053.

FAEN (? Llain-groes-faen).  
 LLAIN-CORYN-Y-CI, cymharer Coryn-dog.  
 LLAIN-FAWR (244, 247; Richard a William Griffith): 1796. Saif hon rhwng Tir-Bodfel a Thy'n-y-coed.  
 LLAIN-GALLT-PEDR: Y llain agosaf ond un at Fynwent 'Rofft ar yr ochr ddeheuol.  
 LLAIN-GRON: gyferbyn â Cherrig-y-gwydd.  
 LLAIN –DELYN: gyferbyn â Fhlas-uchaf.  
 LLAIN-EAST neu  
 LLAIN-NEST. Cymerodd Evan Evans brydles arni ac adeiladodd d yno.  
 LLAIN-GABRIEL (312; Hugh Manley).  
 LLAIN-HEB-DERFYN, yn agos i Lain-pwll.  
 LLAIN-PEN-BRYN, rhwng Ffynnon-wen a Chefn-bychan.  
 LLAIN-PWLL (224; Richard Parry)..  
 LLAIN-SIENCYN (253; John Thomas).  
 LLAIN-TALION  
 -Y-LLYS ; 1786; rhwng y Llys a Charreg-yr-eithin.  
 LLAIN-TAN-TERFAN.  
 LLAIN-WENYN. Enwir hon mewn gweithred DD 988 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth.  
 LLAIN-Y-BEILIAID, gwel Rhenc-newydd.  
 LLAIN-Y-FWYELL: yn is na'r eglwys ar yr ochr ddeheuol.  
 LLAIN-Y-MAEN, ar yr ochr ogleddol i'r eglwys.  
 LLAIN-Y-PLAS (232).  
 LLAIN-Y-PWLL (222; John a Hugh Williams).  
 LLAIN-YR-AUR, gwel y Church terrier, tud. 142.  
 LLAIN-Y-STENT (? Llain yr Extent): 1832.  
 LLANDDWYN (67, 8, 9, 10; Gwir Barch. Christopher Arglwydd Esgob Bangor): Gwel hefyd Ynys Llanddwyn.  
 LLEINIAU'R-ALLT-HIR, y tu ôl i'r eglwys.  
 LLWYN-DOMOS, y tu ôl i Dŷ'n-rallt.  
 LLWYN-YSGAW: 1784; sef Tŷ-lawr presennol./128/  
 LLYS. Cyfeiria Dafydd ap Gwilym at Lys Rhosyr yn ei gariad-gerddi; Morfudd oedd ei gariad neu ei arwres.  
 MAEN-LLWYD, lle saif Tal-y-braich heddiw. Un o gerrig terfyn y fwrdeisdref ydoedd; torrwyd hi i fyny i'w defnyddio mewn gwal gerrig.

MAES-Y-CEIRCH-DIR (148) : 1744;  
 MALLTRAETH STREET: 1744.  
 MELIN-Y-FFRWD (31, 266, 27, 30): 1745. Yn yr hen amser yr ydoedd tair ffordd i'r felin hon, sef un i'r Morfa, sydd yn agored i'r cyhoedd heddiw; a'r ddwy ffordd arall i fyny i gyfeiriad Niwbwrch. Mae y ddwy ffordd hyn wedi eu colli yn awr, ond mae darnau helaeth i'w canfod heddiw a hawdd eu hadnabod am mai eu lled yw o ddwy i dair llath. Erys y ffordd o'r felin at Cefn-bychan o hyd. Yna yr ydoedd yn troi i fyny at Dy'n-coed ac heibio drws annedd-d Llain-fawr. Wedyn yr oedd yn myned trwy feysydd Bryn-sinc ac yn cyrraedd y briffordd ym mhen y Lôn-fudr. Mae y ffordd arall eto yn troi o dan Cefn-bychan gydag ochr uchaf Waun-Arthur, ac yn dirwyn i fyny trwy y pantle hyd at Dyddyn-y-waun. Yma ceir y ffordd wedi ei chau o glawdd i glawdd mewn lle hynod. Yna â'i heibio yr hen dyddyn Ffynnon-wen, i fyny heibio talcen yr Offt, ac wedyn drwy faes Bryn-howydd a chyrraedd y pentref rhwng y Plâs a Phen-y-bonc. Hefyd ceid llwybr o Felin-y-ffrwd gan fyned ar hyd y gefnen, trwy y Rhandir o ben i ben, a heibio yr Hendregadog, gan belled â Tyddyn-hir.<sup>7</sup> Mae y camfeydd sydd yn aros hyd heddiw yn nodi llinell yr hen lwybr. Mae olion sylfaen y felin dd r i'w gweled yn awr; (turiais a deuthum o hyd iddynt 30 mlynedd yn ôl).  
 MENAI STREET: 1744.  
 MERDDYN  
 BAGNAL, yn Heol Pendref. Mae'n debyg fod iddo rhyw gysylltiad â theulu Bagenal. Yr oedd Syr Henry Bagenal yn A.S. yn 1586 a Nicholas Bagenal o B1âs-newydd yn 1661.  
 MERDDYN-MAIN.[Ruined building on Llanddwyn Island, see Owen's map *Ed.*]  
 MORFA-TWMPATH: 1777. Saif ar ddechrau'r traeth i Aber-menai.  
 NEUADD-WEN (284; Griffith Jones): 1743. Fe'i gelwid yn *Neyodd-wen* yn 1796.  
 NEW CHAMBER.  
 NYTH-Y-CACWN: 1745; ger Glan-morfa, Llangaffo.  
 NYTH-Y-GIGFRAN: 1796.  
 NYTH-Y-GÔG (24, 216) : 1819.  
 OGOF-FAIN, ger hen Gapel y Wesleyaid.  
 OGOF neu  
 OGOF-RHIDILL; gwel Tŷ-gwyn.

7 [Owen appears to say *Tyddyn-hic* but this is probably a mistake. Ed.]

PANT-LLADRON; yng nghanol tywyn Maes-y-ceirch-dir. Dywedir mai yno y Cymerid drwg-weithredwyr, i'w crogi a'u claddu. Ar groes-ffyrdd yn gyffredin y cleddid y cyfryw; o bosibl fod croesffordd yma mewn amser a fu.

PARC-STANLEY (186; Arglwydd Stanley).

PEN-BRYN-MADOG; saif hwn rhwng Melin-y-ffrëd a Cerrig-mawr./129/

PEN-DREF (195, 291, 299, 213): 1745.

PEN-DREF-BACH (93, 292; John Robert Purnell, Ysw.): 1788.

PEN-LÔN (194; Capten John Jones; hefyd 192, 166; John Jones, Tí'n 'rardd: 1828.

PEN-MYNYDD; tai Mr. Hugh Evans yn Lôn-y-capel.

PEN-RAS. Safai y t hwn ar ben y Râs; tynnwyd hwn i lawr ac adeiladwyd tri o dai yn nes i Ben-lôn.

PENTRE-UCHAF, 1768; sef ardal yr eglwys.

PEN-WAL (187; John Williams): 1834.

PEN-Y-BANC: 1751; neu PEN-Y-BONC: 1800 (53, 66; John a David Thomas). Ar y cae gyferbyn â'r Dywades, bu ponc fawr o dywod, efallai Oherwydd clirio'r tywod oddi ar y briffordd a chwythwyd yno o'r tywyn. Taenwyd ef ar hyd wyneb y tir, ac mae'r cae heddiw yn uwch o lawer na lefel y briffordd. Ar y cwr nesaf i'r Plâs-uchaf safai gynt *ddau* o dai t<sup>^</sup> gwellt (felly y dywedir). Rhoddwyd prydles ar y tai i Owen Owens, mab Owen Owens, 'Rhouse, ac adeiladodd yntau d newydd yno lle bu'n byw o 1834 i 1836, pan symudodd i 'Rhouse.

PEN-Y-BRYN (240, 241): 1769; wrth ymyl Cefn-bychan.

PEN-Y-GAMFA (51; Henry Charles Evans, Ysw.): 1814. Perthynai hwn gynt i'r Parch. Henry Rowlands, Plâs-gwyn; H. C. Evans oedd ei nai.

PEN-Y-GONGL: 1833; ar "Y Groes."

PEN-Y-GORS (159).

PLAS, PLAS-PELLA, neu PLAS-UCHAF (233, 221, 304, 286; Evan Roberts): 1731. Ar garreg yn uchel ar wyneb y t ceid pais arfau Llywarch ap Bran, gydag ychwanegiad o'r llythrennau G B a'r flwyddyn 1643. Prynwyd y lle oddeutu 1820 gan Samol Roberts o Ben-mynydd. Merched yr hen Samol a Catrin Evans oedd Jane a briododd Twm Shon Dafydd, Plas-newydd a Bryn-howydd, ac Elizabeth a briododd Hugh Owen, Ty'n coed. Dyma gwpled a gerfiodd Bardd Du Môn ar fedd hen berchennog y Plâs: "Yn noeth Samol wnaeth symud I isder bedd o stwr byd."

PLAS, neu

HEN-BLAS, yn Heol yr eglwys, gweler hefyd Henblâs. Dywedir y byddai yn gysylltiol ag etifeddiaethau Llanidan a Lligwy.

PLAS-NEWYDD: 1745. Credir y perthynai gynt i Owenaïd Bodorgan. Yn diweddarach yr oedd yn eiddo i'r Parch. Edward Hughes, ac yna i'w fab, Arglwydd Dinorben; ac wedi hynny i nai y diwethaf, sef Mr. Hughes, Kinmel. Pan werthwyd yr etifeddiaeth, prynwyd Plâs-newydd gan Capten Roberts, Tal-y-braich.

PLAS-PYDEWAU. Dywedir bod hwn yn perthyn i Wyniaid Glyn-llifon rhyw dair canrif yn ôl. Tynnwyd i lawr yr hen blâs a'r adeiladau tô gwellt oddeutu 1840, ac adeiladodd William Owen, Gallt-y-rhedyn, bedwar o dal yn eu lle yn Heol yr eglwys, a rhoddwyd yr enw hwn ar un ohonynt./130/

PONC-DDEOL, gweler Aber-menai.

PONC - (? PANT-) LWCUS; pant mawr wrth Draeth Aber-menai.

PONC-RYSIOG, wrth ymyl Bryn-yr-hendai.

POOL (146), h.y. Llyn-rhos-ddu.

PORTH-YR-HALEN, yn Ynys Llanddwyn; yno y byddai halen yn cael ei smwglio pan Fyddai treth yr halen mewn grym.

PWLL-HOCCEDED

PWLL-GRO, Y lle nesaf i Idan House.

RHEDYN-COCH-MAWR (45, 32, 121; person plwyf Pen-rhoslligwy): 1745.

RHEDYN-COCH-BACH (44; William Jones): 1772.

RHEINWS, yr hen garchar; cymerodd John Jones, groser, y lle fel *warehouse* i'w nwyddau oddeutu 1820.

RHENC : 1793.

RHENC-ISAF : 1829.

RHENC-NEWYDD: 1825. Tai i'r tlodion oedd y rhai hyn wedi eu hadeiladu ar Lain-y-beiliaid; gwerthwyd y cwbl yn ac adeiladwyd Soar Terrace yn eu lle.

RHOS-FAIN, ar y dde i'r ffordd am Aber-menai a thua hanner fordd rhwng Long-sipping a Bwlch-y-traeth.

RHOS-VAIR (176; Arglwydd Dinorben).

RHOSYDD (154; Morgan Pierce Pierce): 1826.

RHOS-YR-AUR (285): 1747. Saif ar bantle cleiog, oer a gwlyb; amgylchir hi gan dyddynod Tyddyn-pwrpas, T mwdwal, Cae'r gors, Glanrhos, Neuadd-wen, Tí'n-rhos, a T -newydd. Yr oedd llyn mawr yno yn gorchuddio y rhan fwyaf o'r Rhos ar amseroedd gwlybion.

RHOUSE: Gweler *House*.  
 RHYD-DINAM : 1804.  
 ‘ROFFT (246; Henry Lewis): 1765. Yr oedd y lle hwn gynt yn rhan o etifeddiaeth T -lawr.  
 ‘ROFFT-WEN Y fynwent newydd.  
 ‘ROFFT-YR-EIDROL neu ‘Rofft: (gweler uchod).  
 SARN-DUTTUR, yn Llangaffo; 1823.  
 “SHIP”; 1802; tafarn.  
 SIAMBER-NEWYDD; 1745. Ar safle yr hen Siamber-newydd uchod ac ar gwr yr Offt Ymhen uchaf Heol yr eglwys, adeiladodd John Rowland a William Morris, y saer, nifer o dai - Tan-yr-offt eu gelwir - oddeutu 1840.  
 SIGN, neu  
 SIGN-FAWR; 1746. Dywedir fod “Twm Sign” (h.y. Thomas Evans) yn byw mewn un rhan o’r tî a Beti Nan Llog, neu Beti Parlwr Mawr, mewn rhan arall oddeutu 1815 i 1827, tra ‘roedd rhannau eraill yn anaddas i neb fyw ynddynt.  
 SIGN-DELYN: enw ar dî Dafydd Owen crydd yn ddiweddar, ond yn flaenorol enw ar dafarn ydoedd o flaen yr House, ac Edward Michael oedd y tafarnwr.  
 SIGN-HARE: 1792. John Jones ac Elin Morus gadwai’r dafarn hon oddeutu 1808 i 1828. Bu Elin Morus farw yn 1835 pan yn 62 oed./131/ “Peint a chwart a chwpan hwylus Sydd ym mharlwr Elin Morus Pan fydd Elin Morus farw Mi roi gora i yfed cwrw.” Awgryma hyn mai hi, nid y cwrw, oedd y prif atdyniad. Ar ôl Iddi symud i’r “White Lion” cedwid Sign-hare gan John Prichard a chadwai hwn, fe ddywedir, tua 1854, faelty yn Gorffwysfa, tafarn yn Sign-hare, ffarmiai Cerrig-mawr, Tan-lan a Tyddyn-y-fawd ‘ar hyd breichiau.’ Diweddodd mewn tlodi mawr. Wrth ochr Sign hare yr oedd cwt â’i dalcen i’r lôn, lle y byddai y cwrw yn cael ei ddarllaw.  
 SIGN-SLOOP; tafarn lle saif Idan House yn awr; gweler hefyd Tafarn-racs.  
 SIOP: 1807.  
 SIOP-PEN-Y-GROES; ceir yr enw hwn ar garreg-fedd ym mynwent yr eglwys. Yr oedd y siop hon yn sefyll lle y saif Penrhyn House heddiw.  
 SIOP-SHARP: 1808: sef Idan House heddiw.  
 SLING, wrth draeth Aber-menai.

SPIER HOUSE. Ei hen enw oedd T Debra, am fod Deborah Williams, mam Mary Williams gwraig John Hughes Rhedyn-cochfawr, yn byw ynddo.  
 TAFARN-BRIDD (neu -FRIDD) (310; Hugh Williams): 1744.  
 TAFARN-RACS; hen enw ar Idan House; yr oedd yno oddeutu 1844; gwel hefyd Sign-sloop.  
 TAFARN-TISW (281),  
 TAFARN-TYSSW neu TAFARN-TYWYSOG: 1829.  
 TAFARN-TYSEW-MAWR: 1833.  
 TAI a gerddi (202, 101; 219, John Rowlands; 98).  
 TAI a gerddi (105, 217; Arglwydd Boston, Arglwydd Newborough, John Jones &c.)  
 TAL-Y-BRAICH. Saif y t hwn ar gwr llain a elwid Waun-sign. Capten William Thomas, Cae-coch, a adeiladodd y t ; felly hefyd Tal-y-braich Terrace (oddeutu 1879). Gwerthodd hwy ac eiddo arall yn Niwbwrch a symudodd I Fetws-y-coed, ac yna i Meyrick Arms, Bodorgan.  
 TAN-LAN (20, 242, 263, 29) : 1736.  
 TAN-LON (191).  
 TAN-TERFAN neu -TERFYN (37), ger Tyddyn-bach: 1814.  
 TAN-Y-BRYN-MADOG (18, 257, 259: John Jones).  
 TAN-Y-BWLCH; yn Lôn-twnti rhwng Llain-y-pwll a Th ñn-lôn bach.  
 TAN-Y-FFYNNON (104; Henry Charles Evans, Ysw.). Saif yn Heol yr Eglwys.  
 TAN-Y-GRAIG (125, 129; John Owen): 1832.  
 TAN-Y-GRISIA : 1805.  
 TAN-YR-OFFT, gwel Siamber-newydd./132/  
 TIR-BODFEL (245, 243, 244a): 1770. Cymharer J. Bodfel o Laneugrad a Chastell Bodfel, Caernarfon; A.S. yn 1640. “Conditions of sale of estates in Anglesey & contract to sell Lot 10 & 11 to Mr.Grindley, June 22, 1799. Newborough -Tyddyn Bodfel: Tenant John Jones; Rent £8. Stable & 3 gardens: Tenant Evan Lloyd, Esq. Rent £1. 1. 0. Acct. of above sale of Tyddyn Bodfel.  
 John Jones 180  
 Mr. Prichard 188  
 John Jones 196  
 Mr. Grindley 204  
 Mr. Prichard 212



Mr. Grindley 220  
 John Jones 228  
 Sold to Mr. Byrne for Seller 238.”<sup>8</sup>  
 TIR-CAPTEN, yn y tywyn. Ym Medi 1761 gosodwyd *Tir y Capten Wynne* (140a. 3r. 18p.) gan y perchennog Owen Meyric (Ieu.) o Fodorgan i Evan Jones o Gaernarfon ar brydles o bymtheng mlynedd am £3 o rent yn flynyddol, ac hefyd yr oedd Evan Jones i roddi deuddeg cwpl o gwingod bob blwyddyn i Owen Meyric ryw adeg y gofynnai ef amdanynt.<sup>9</sup> Dyma enwau tenantiaid diweddaraf y tir hwn: D. Thomas (1904 -19), J. Thomas (1920-27), R. Thomas (1928-42), R.T. Jones (1943 - 45), S. Jones (1946-50)  
 TIR-GLASGOED 271, 293, 196, 308, 201, 208, 199, 112; Elizabeth Alicia Turnbull ag Ann Williams): 1792; cymharer *Glas-goed*.  
 TIR-MAWR (81) : 1801.  
 TIR-SIGN; 66 acer o'r tywyn yn terfynu â Chwt-gwlyb.  
 TIR-VORGAN (12; John Jones, Tyddyn) : 1752. Adfeilion ohono yn unig a welir yn awr. Safai ar y llwybr o Niwbwrch i Landdwyn ar y ddê wedi myned heibio i'r Orsedd.  
 “Ar ymyl y tywyn canfyddir hen fwth  
 Lle gynt clywid Morgan yn chwareu ei gr th  
 Ac er ei fod ef yn y tywod yn fud  
 Fe genir y gr th gan Gymry o hyd.”  
 Traddodiad ? ie, er hynny, gellir ei gredu. Yn *Archaeologia* (1771) Ceir adroddiad o ddarlith ar “Offer Cerdd Cymru,” roddwyd i Gymdeithas Hynafiaethol Aberdeen yn yr Alban ar Mai 7, 1770. Dangosodd Mr. Barrington, y darlithydd, ffidil a dywedodd: ‘Dyma gr th o eiddo John Morgan o Niwbwrch, Môn. Mae /133/ef yn awr yn 59 oed a phan bydd farw mae'n debyg y bydd yr hen ddull cenedlaethol iawn o ganu'r gr th yn marw gydag ef.’<sup>10</sup>  
<sup>10</sup> Dengys cofrestrau'r Plwyf fod John Morgan o Lanfairpwllgwyngyll wedi priodi Dorothy David o Niwbwrch ar 25 Hydref 1747; cyfeirir ato fel ffidler a chowpar, ac yna fel ffidler yn unig. Bu farw a chladdwyd ef ar 30 Tachwedd 1779 ym mynwent Niwbwrch. Tybiwn mai yn Nhir Morgan y trigai ar ôl priodi.

#### TRAETH-BACH.

<sup>8</sup> Porth-yr-aur MS

<sup>9</sup> Bodorgan Papers, No. 1265; U.C.N.W., Bangor,

<sup>10</sup> According to Mr. Barrington's account, “the Crwth had six strings, two of which projected beyond the finger board, one of these being touched by the thumb; the bridge was perfectly flat, so that all the strings were necessarily struck at the same time and afforded a perpetual succession of chords. The bow resembled that of a tenor fiddle.” O'Curry, *Manners and Customs of the Ancient Irish*, v.1, p. cccxcvi, fig. 63.

TRAETHELL-  
 GADARN darn o dir ddeuddeg llath ysgwâr mewn maint, a hanner ffordd o Long-sipping i Aber-menai.  
 TROS-Y-STREET: 1828; cymharer Tí-draw.  
 TU-HWNT-I'R-  
 DEYRNAS, 1791: tí lle saif eglwys St. Thomas (yr ‘eglwys bach’ yn awr; gelwid ef Twyn-du-Teyrnas yn 1813.  
 TURIANA : 1805.  
 TWLL-DU : 1812.  
 T a gardd (206a, William Rowlands, 204a, 50a, 101a, 205a, 100, 52).  
 T -BACH: 1798; rhwng Llwyn-helyg a Mor-annedd, yn yr amser a fu.  
 T -CRWN: 1813: cymharer Cae-crwn.  
 T -DRAW: 1792; lle y byddai John Lewis y trethwr yn byw yn Heol y Capel; cymharer *Tros-y-street*.  
 TYDDYN (139,134; Parch.Richard Hughes, William Morris a Robinson; Ynghyda *Cae-yr-acres* neu *-acres*): 1754.  
 TYDDYN (rhan) - (145, 144; David Roberts).  
 TYDDYN-  
 ABERKIN (212, 215, 307 rhan): 1814.  
 TYDDYN-BACH: 1744; safai y drydedd ran o'r ffordd o'r Gwninger i eglwys y plwyf, ar yr ochr chwith i'r lôn.  
 TYDDYN-  
 BYCHAN (36, 39, 236; William Lloyd): 1804; yn agos i Gefn-bychan.  
 TYDDYN-  
 CORLANNAU: 1814.  
 TYDDYN-  
 GELANEDD : 1817.  
 TYDDYN-  
 NATHANIEL: 1813.  
 TYDDYN-  
 PWRPAS (274, 273 rhan, 278; Robert Hughes) : 1745.  
 TYDDYN-  
 TLODION (54, 57, 117; Tlodion plwyf Trefdraeth): 1819.  
 TYDDYN-TROS-  
 Y-RHOS.  
 TYDDYN-Y-FAWD (21; -Miller, Ysw.): 1751. Prynwyd Tyddyn-y-fawd a Ffynnon-wen gan John Griffith ffarmwr o Drefor uchaf, Llansadwm, gan ei dad John Griffith, *currier* o Gaernarfon, am £10 ar Mehefin 12, 1815. (Porth-yr-aur MS. 13782).  
 TYDDYN-Y-  
 PLWM (130) : 1793.  
 TYDDYN-YR-

OERFEL (150): 1745; safai mewn cae ger Tyddyn-y-plwm./134/  
 TYDDYN-Y-  
 WAUN (234 ; Hugh Rowlands a William Hughes): 1745.  
 TÌ -GWYN. Perthynai'r llain (ynghyda lleiniau eraill) i deilwriaid o Fiwmares, a chawsant saer maen i adeiladu tai arnynt. Yn lle llenwi y muriau yn briodol â *mortar* cymerodd y crialwm raw i'w llenwi â thywod. Rhedodd hwnnw yn fuan o'r muriau nes eu gwneud yn dyllau trwyddynt. Felly, galwyd y t a adeiladwyd ar y llain lle saif TÍ-gwyn yn *Ogo'r-rhidyll*. TÍ'n-llan oedd d arall adeiladwyd gan yr un saer maen a bu raid tynnu hwnnw i lawr ymhen ychydig amser.

Tì -ISAF: 1784; h.y. Siop-isaf, lle y saif Môr-annedd heddiw.  
 Tì -LLWYD : 1744.  
 Tì -MAIN (254, 23): 1752.  
 Tì -MAWR (262, 264, 256, 258, 260): 1745; yn terfynu ag ochr orllewinol TÍ-main. Ceir TÍ-mawr arall gyferbyn a'r 'eglwys bach' ; ond ni Wahaneithir rhwng y naill a'r llall yng nghofrestrau'r plwyf.

Tì -MWDWAL (277; Richard Williams): 1769.  
 Tì 'N-CAE (48, 223, 64) : 1745.  
 Tì 'N-COED (62; Fuller Owen Meyrick, Ysw.): 1745. Yn y mur ar wyneb y tí ceir carreg a 1621 yn gerfiedig arni: cymerwyd hon o'r hen DÍ'n-coed pan dynnwyd ef i lawr, ac y adeiladwyd y tí presennol.

Tì 'N-COED: 1815; ym Mhentre-uchaf.  
 Tì -NEWYDD (279): 1791; yn agos i Rhos-yr-aur.  
 Tì 'N-FFLAT : 1821.  
 Tì 'N-GAMFA: 1817; gyferbyn a Phen-y-bonc.  
 Tì 'N-GATE, yr ochr arall i'r heol i Fod-Iorwerth.  
 Tì 'N-GERDDI, gyferbyn â Baron-hill.  
 Tì 'N-GOEDEN (112, 226, 288, 197, 111, 220, 92, 60, 90, 133, 77, 131, 128): 1830.  
 Tì 'N-GONGL : 1814.  
 Tì 'N-GRAIG (137; Owen Williams): 1745.  
 Tì 'N-LÔN (95, 230, 96): 1750. Gwerthwyd ar ocsiwn ddau gae yma ar 2 Hydref 1827 (Porth-yr-aur MS. 11056).

Tì 'N-LÔN-BACH (225) : 1828.  
 Tì 'N-LLAN, i'r dê o'r eglwys, dros y ffordd i'r fynwent.  
 Tì 'N-LLIDIART (79, 86, 68, 89; Evan Williams): 1792.  
 "2 & 3 Jan. 1786. Sale of Tynllidiart for £42 by Owen Edward of Pwllpreban, Rhoscolyn (son of Edward Mark, late of Newborough) to John Goodman, togr. with several Quillets, Pieces or Parcels of Land ... commonly called Llain y graig, Llain talion y Llys, Llain cefn yr eglwys & Llain gallt bedr siutate lying

& being in the Parish of Newborough otherwise Llanbedr Newborough aforesaid, and the Seat or Pew in the Parish Church of Newborough ... all lately in the tenure or occupation of William Davies his under tenants or assigns at & under the yearly rent of £2 2. 0." <sup>11</sup>

Tì 'N-PANT (56; David Roberts Pugh): 1813./135/  
 Tì 'N-PWLL ( ? Llain-pwll) : 1745.  
 Tì 'N-PYDEW (109, 118, 207, 207a rhan; Syr Edward Lloyd Mostyn, Bar.): 1792. *Garage* geir yma yn awr.  
 Tì 'N-YR-ALLT (65, 91, 94, 63, 69, 85, 76, 78, 120, 147, 138, 140, 302, 297, 294, 83, 287, 235, 38, 300; William Griffith, Robert Williams a Henry Williams): 1769.  
 Tì 'N-YR-ARDD (59, 218, 99) : 1804.  
 Tì 'N-Y-RHOS (280; Robert Roberts): 1803.  
 Tì -PUGH, ger t William Jones ym Mhen-lôn. Yr oedd yna J.W. Pugh a Mary Pugh yn fyw yn 1735; Lewis Pugh yn weinidog 1781 - 85, pan foddodd yng Nghwch Aber-menai. Cymharer Bron-gader. 1836.  
 TYWYN :  
 WAREHOUSE (217a).  
 WAUN-BWAL ( ? Ty'n-y-coed).  
 WAUN-SAIN, lle y saif Tal-y-braich yn awr.  
 "WHITE LION" (102, 15): 1830; yr unig dafarn yn y pentref heddiw. Arni ceir arf-bais teulu y Duc Norfolk. Byddai pwll o dd r lle y saif "White Lion" yn awr. Dywedir bod y t wedi cael ei adeiladu gan John Jones, mab John Abram Cefn-bychan, sef ail r y dafarnwraig adnabyddus Elin Morns Sign-hare. Wedyn adeiladwyd t a siop yn gysylltiol a "White Lion". Cafodd R. P. Jones brydles ar y t a'r siop. Gyferbyn â'r "White Lion", oddeutu 1800, yr oedd "carreg orchest" hirgrwn a llefn. Defnyddid hi i brofi nerth a medrusrwydd dynion cryfion a gafaelgar. Y gamp, neu'r orchest, oedd ei chodi ar ysgwydd. I gychwyn, byddai'r ymgeisydd yn g yro a phalfalu y garreg i'w chael ar ei liniau; yna ei chodi i'w fynwes, ac ar ôl ymsythu, ei chodi ar ei ysgwydd. Dywedir y safai'r "groes" a'r "stocks," oddentu 1750, lle y ceir Cambrian House yn awr. Yr oedd yr hen "stocks" yn offeryn na arferid mo hono, ac yn gloedig. Un noson dywyll ac ystormus, drylliwyd hwy gan ryw rai direidus. Tua'r un adeg, chwalwyd y "groes." Ar ei grisiau y safai cyhoeddwr y pentref pan weinyddai ei wydd, gan weiddi "Hoi"! nerth ei ben deirgwaith, ac yna â llef nerthol mynegai ei neges.

## YNYS


<sup>11</sup> Porth-yr-aur MS.

LLANDDWYN (1); gwel hefyd *Llanddwyn*.  
YSGOLDY: 1825; sef Bryn-teg heddiw, lle y cadwyd yr ysgol elfennol gyntaf yn yr ardal. Credir bod adeilad dwbl yn sefyll ar ben Llain-y-beiliaid, lle y safai Capel Soar yr Annibynwyr. Gelwid un rhan yn Ysgoldy a'r llall yn Heinws. Cyfeirir yng nghofnodion Festri'r plwyf at godi Ysgoldy yr un amser ag yr adeiladwyd Tai'r Tlodion.

YSGUBOR-DDEGWM (210; glebe). Mae'r Persondy wedi ei adeiladu ar lain Ysgubor-ddegwm. Arferai Thomas Rowland y clochydd fyw yn yr hen d , sydd yn awr yn un o adeiladau allan y Persondy.

YSGUBOR-DDU :1815.

YSGUBOR-  
HOUSE :1805./136/



**Fig. 14b** Sketch of *Pandy (Y Ffatri)*, Newborough, now demolished. By a former local resident. *Editor's collection*.